



CYNNAU GOLEUADAU NADOLIG A PHARED Y CEIRW

Caerfyrddin oedd y lle i fod Dydd Sadwrn yr 20^{fed} o Dachwedd gyda chynnau goleuadau Nadolig a Phared y Ceirw blynyddol yn cymryd lle yng nghanol y dref.

Dywedodd Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John: 'Roedd yna filiodd o bobl yn y dref dydd Sadwrn, roedd yna awyrgylch arbennig o gwmpas y dref, ac roedd yn brofiad gwych'.

'Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, gorfod i'r digwyddiad hwn cael ei gynnal ar lein llynedd, ac er bod yn rhaid i ni gyd cadw'n wylidwrus ynglŷn â'r coronafeirws, rwyf wrth fy modd fod yna gymaint o bobl wedi mynychu'r digwyddiadau ar hyd y dref dydd Sadwrn. Mae pobl wedi bod yn edrych ymlaen yn fawr at allu mynychu'r digwyddiadau awyr agored yn ddiogel yng Nghaerfyrddin, ac maent yn denu pobl o bob rhan o dde-orllewin Cymru'.

'Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn falch iawn o'i ddigwyddiadau Nadolig, ond yn anffodus mae'r pandemig wedi golygu nad oes Wyl Aef yma eleni, ond rydym yn obeithiol iawn y bydd yn dychwelyd i Barc Caerfyrddin blwyddyn nesaf'.

'Caerfyrddin yw un o'r ychydig drefi sydd yn coffau ystyr traddodiadol y Nadolig, gyda'r arddangosfa unigryw o'r Geni sydd yn cael ei osod ar falconi'r Neuadd Sir, sydd reit yng nghanol y dref'.

'Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn cynnal y digwyddiadau hyn pob blwyddyn, a rhaid i mi dalu teyrnged i'r ymdrechion ardderchog o dîm bach o staff Cyngor y Dref sydd yn gweithio mor galed i sicrhau bod y dathliadau Nadolig yma'r rhai gorau y gallant fod. Mae'n cymryd chwe wythnos i baratoi'r holl oleuadau a choed, ac mae'n wych pan ddaw'r holl waith caled at ei gilydd fel hyn'.

'Hoffwn hefyd ddiolch yn ddiffuant i'n partneriaid o Menter Sir Gâr ac Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin sydd wedi gweithio'n agos iawn gyda ni i drefnu a pharatoi'r holl wahanol ddigwyddiadau ac adloniant a gymrodd le ar hyd y dref. Hoffwn hefyd ddiolch i'r nifer o wirfoddolwyr a gyfrannodd tuag at lwyddiant y digwyddiadau hyn ac i'r heddlu am gadw pawb yn ddiogel'.

'Ar ran pawb yng Nghyngor Tref Caerfyrddin hoffwn ddymuno Nadolig Llawen iawn i chi gyd'.

Alun J Harries

Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin - Clerk, Carmarthen Town Council

01267 235199

22^{ain} o Dachwedd 2021